No.

# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 30 Mawrth, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.C. Bird (Cadeirydd); Cynghorydd B.T. Gray (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, R.M. Birch, C.A. Cave, P. Drake, V.P. Driscoll, S.T. Edwards, N.P. Hodges, DR. I.J. Johnson, G.C. Kemp, A.C. Parker, L.O. Rowlands, N.C. Thomas, M.R. Wilson a E. Williams

1001 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

1002 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth, 2022 fel cofnod cywir.

1003 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1004 CEISIADAU RHEOLI ADEILADAU A MATERION RHEOLI ADEILADAU ERAILL A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PAC) –

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi’r ceisiadau rheoliadau adeiladau a gytunwyd, fel y'u rhestrir yn Adran A o'r adroddiad.

(2) Y dylid nodi’r ceisiadau adeiladu a wrthodwyd, fel y’u rhestrir yn Adran B yr adroddiad.

(3) Nodi’r broses o gyflwyno Hysbysiadau dan y Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2000, fel y'i nodir yn Adran C o'r adroddiad.

1005 CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PAC) –

PENDERFYNWYD – BOD y ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 9 trwy 21, o dan y pwerau wedi'u nodi uchod.

1006 APELIADAU (PAC) –

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi’r apeliadau a dderbyniwyd ar ôl i'r Cygnor wrthod rhoi caniatâd cynllunio, fel y’u nodir yn Adran A o’r adroddiad.

(2) Y DYLID nodi na dderbyniwyd unrhyw Apeliadau Gorfodi, fel y nodir yn Adran B yr adroddiad.

(3) Nodi’r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio, fel y manylwyd arnynt yn Adran C yr adroddiad.

(4) Y DYLID nodi na dderbyniwyd unrhyw Benderfyniadau Apeliadau Gorfodi, fel y nodir yn Adran D yr adroddiad.

(5) Nodi ystadegau’r apeliadau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, fel y’u nodir yn Adran E o’r adroddiad.

1007 COED (PAC) –

(i) Rhestr Ddirprwyedig

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 33 a 36, fel y penderfynir gan y Pennaeth Adfywio a Chynllunio o dan bwerau dirprwyedig.

1008 CEISIAD CYNLLUNIO (PAC) –

PENDERFYNWYD – Yn unol â'r pwerau a ddirprwywyd i'r Pwyllgor, y penderfynir ar y ceisiadau a ganlyn fel y nodir a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol eraill.

**2021/01665/FUL** Derbyniwyd ar 22 Tachwedd 2021
(t30)
**YMGEISYDD:**Mr S Howes, Tŷ Porthceri, Porthceri, CF62 3BZ
**ASIANT:** Mrs Arran Dallimore C2J Architects and Town Planners, UNED 1A, Parc Busnes Compass, Pacific Road, Ocean Park, Caerdydd. CF24 5HL

**Tŷ Porthceri, Porthceri**

Cadw tŷ pwll a theras caeedig

PENDERFYNWYD yn unfrydol -

(1) Gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer cadw'r gwaith

(2) Awdurdodi’r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gyhoeddi Hysbysiad Gorfodi dan Adran 172 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) i'w gwneud yn ofynnol i:

(i) Gael gwared ar y teras sy'n destun y cais cynllunio.

(ii) Adfer y tir o fewn yr ardal amddiffyn gwreiddiau i'w gyflwr blaenorol yn union cyn dechrau'r gwaith heb awdurdodir.

(3) DYLID awdurdodi os na chydymffurfir â'r Hysbysiad, cymryd unrhyw achos cyfreithiol sy'n ofynnol.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Mae'r penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio wedi'i wneud yn unol ag Adran 38 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, sy'n ei gwneud yn ofynnol, wrth benderfynu ar gais cynllunio, i'r penderfyniad fod yn unol â'r Cynllun Datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae'r Cynllun Datblygu ar gyfer yr ardal yn cynnwys Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bro Morgannwg 2011-2026 a Chymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040.

Ystyrir bod y penderfyniad yn cydymffurfio ag amcanion lles y Cyngor a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ystyriwyd y dogfennau polisi morol priodol wrth benderfynu ar y cais hwn yn unol ag Adran 59 o Ddeddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009.

Byddai cyflwyno'r teras o amgylch y boncyff ac o fewn ardal amddiffyn gwreiddiau’r Dderwen Fythwyrdd, sy'n rhan o goetir hynafol ehangach, yn debygol o arwain at farwolaeth y goeden a cholli nodwedd naturiol hanesyddol sylweddol. Byddai'r datblygiad felly yn groes i bolisi MD1 y CDLl (maen prawf 1, oherwydd yr effaith ar gymeriad y safle gwledig hwn), polisi MD2 (maen prawf 10 oherwydd yr effaith andwyol ar nodweddion tirlunio presennol a maen prawf 12 oherwydd effeithiau amgylcheddol andwyol colli'r goeden) a Pholisi SP10 (oherwydd niwed i amgylchedd/treftadaeth naturiol) Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bro Morgannwg 2011-2026, CCA Coed, Coetiroedd, Gwrychoedd a Datblygiad y Cyngor a'r cyngor ym Mholisi Cynllunio Cymru 11.

**2021/00217/FUL** Derbyniwyd ar 12 Mawrth 2021
(t44).
**YMGEISYDD:** Frederick Ash dan ofal Asiant
**ASIANT:**Jon Waters Planabuild, 8, Ely Court, Francis Street, Tonyrefail, CF39 8EP

**Dragon Clay Sports**, Wick Road, Ewenni

Nid oedd y Cynghorydd Williams yn rhan o'r ddadl lawn ar yr eitem hon ac felly ni phleidleisiodd ar y cais.

CYMERADWYWYD, yn amodol ar yr amodau a gynhwysir yn yr adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.